



Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau

Ymchwil a Datblygu



Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn [Bolisi Cyfle Cyfartal](#).

Gwaith Ymchwil a Datblygu

Pwrpas

Cefnogi sefydliadau i gydweithio er mwyn archwilio a datblygu syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio.

Beth rydyn ni am ei gyflawni

Gall gwaith ymchwil a datblygu gael effaith sylweddol ar arferion creadigol. Gall unigolion creadigol proffesiynol ar bob cam yn eu gyrfa elwa ar hyn, ac mae hyn yn gallu cyfrannu at ddatblygiad pob math o gelfyddyd. Rydyn ni am gynorthwyo prosiectau ymchwil a datblygu a fydd yn ehangu ac yn cryfhau eich arferion creadigol ac yn helpu i adeiladu gwaith ar y cyd a fydd yn caniatáu i'ch syniad creadigol ddwyn ffrwyth.

Gall cam ymchwil a datblygu priodol fod yn gam cyntaf wrth wireddu syniad gwych. Mae diddordeb gennym gynorthwyo prosiectau cydweithiol ar draws pob math o gelfyddyd sy'n gallu sbarduno gwaith newydd, neu fwydo ein gweledigaeth ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru mewn ffordd neilltuol. Ac oherwydd natur y gwaith ymchwil a datblygu, ni fyddwn ni'n disgwyl bod yna ganlyniad diffiniedig bob tro.

Rhaid i botensial y syniad creadigol fod wrth galon eich cynnig. Nid oes ofn arnom gymryd risgiau os oes modd eu cyfiawnhau – ac rydyn ni am i sefydliadau'r celfyddydau rydyn ni'n eu hariannu wneud hynny hefyd. Byddwn ni'n disgwyl i chi fynd y tu hwnt i'ch arferion creadigol arferol eich hun.

Wedi dweud hynny, dydyn ni ddim am fod yn gyfarwyddol, ac rydyn ni am glywed gennych am eich prosiectau ymchwil a datblygu a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i arferion creadigol eich sefydliad.

Datblygu Cynyrchiadau Theatr a Dawns

Rydyn yn cynnig grantiau mawr i gynorthwyo prosiectau i ddatblygu cynyrchiadau theatr a dawns trwy'r maes gwaith Ymchwil a Datblygu.

Rydyn ni wedi ymrwymo ddarparu cyllid ar gyfer cynhyrchwyr theatr a dawns er mwyn galluogi iddynt ddatblygu gwaith sy'n gyffrous, yn heriol ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru trwy gynorthwyo cyfnod o waith ymchwil a datblygu er mwyn galluogi i syniadau newydd, ffyrdd newydd o weithio, a phrosiectau cydweithredu newydd gael eu datblygu.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein [Taflen Wybodaeth](#) ar Ddatblygu Cynyrchiadau Theatr a Dawns.

Beth fydd ei hangen gennych

Rydyn ni'n disgwyl i gydweithredu fod wrth galon y prosiectau ymchwil a datblygu y byddwn yn eu cynorthwyo. **Rhaid** i bob prosiect gynnwys o leiaf dau sefydliad (neu sefydliad ac unigolyn) yn cydweithio i ddatblygu arferion a syniadau creadigol.

Gall prosiectau gynnwys y cyfle i gyflwyno gwaith sydd ar y gweill i'w brofi gyda chynulleidfa neu gyda darpar-hyrwyddwyr neu fudd-ddeiliaid os yw hynny'n briodol. Yn yr achosion hyn, byddem yn disgwyl i chi sefydlu cynlluniau i ddenu pobl i'r perfformiadau, yr arddangosfeydd neu'r achlysuron dangos hynny.

Byddwn ni'n disgwyl i ddenu canmoliaeth adolygwyr neu adborth fod wrth galon eich cynnig. Gellid gwireddu hyn trwy weithio gyda mentor, sefydliad partner neu trwy rannu gwaith gyda phobl sy'n gweithio'n broffesiynol yn y diwydiant, er enghraifft.

Ni ddylech gychwyn unrhyw brosiect ymchwil a datblygu ag unrhyw syniadau parod o ran a fydd yna gam nesaf yn eich prosiect, neu beth fyddai natur y cam hwnnw. Byddwn ni'n disgwyl i chi adael cyfnod rhesymol o amser i adolygu ac ystyried y canfyddiadau cyn cyflwyno unrhyw geisiadau pellach am gyllid i ni (fel cais am gyllid Cynhyrchu).

Mae rhagor o wybodaeth yn ein [Nodiadau Cymorth](#) am geisiadau Ymchwil a Datblygu a'n [Taflen Wybodaeth](#) am Ddatblygu Cynyrchiadau Theatr a Dawns, a bydd y rhain yn eich helpu wrth lenwi'ch ffurflen gais.

Pwy gaiff wneud cais

Cewch wirio bod eich sefydliad yn gymwys i wneud cais trwy ddarllen ein dogfen [Cychwyn Arni](#).

Datblygu Cynyrchiadau Theatr a Dawns

Byddwn ni'n croesawu ceisiadau gan sefydliadau nad ydynt yn cael cyllid refeniw gennym.

Dylai'r holl ymgeiswyr fod yn gweithio yng Nghymru, ond byddwn ni'n ystyried cynorthwyo partneriaethau creadigol rhwng cwmnïau a chanolfannau yng Nghymru, a rhai mewn gwledydd eraill, ar yr amod y gellir dangos bod yna fanteision amlwg i artistiaid a chynulleidfaoedd yng Nghymru.

Y Cyllid sydd ar gael

Cewch wneud cais am hyd at **80%** o gyfanswm costau cymwys eich prosiect. Gellir cyflwyno ceisiadau ar y lefelau canlynol:

- Grantiau bach rhwng £250 a £5,000
- Grantiau mawr rhwng £5,001 a £30,000

Dim ond ar gyfer prosiectau **datblygu cynyrchiadau theatr a dawns** y gellir cyflwyno grantiau mawr.

Pryd cewch wneud cais

Dylech gyflwyno'ch cais mor fuan ag sy'n bosibl.

Grantiau Bach

Nid oes dyddiad cau ar gyfer grantiau bach, ond bydd angen i chi ganiatáu o leiaf **chwech wythnos gwaith** rhwng dyddiad cyflwyno'r cais a'r dyddiad pan rydych am ddechrau eich prosiect. **Os ydych chi'n cyflwyno'ch cais cyntaf i ni, yna rhaid i chi wneud cais ar y lefel hon.**

Bydd ein rhaglen Grantiau Bach yn cau dros-dro tra ein bod yn adolygu sut yr ydym yn dosbarthu arian Loteri. Y dyddiad olaf byddwn yn derbyn ceisiadau Grantiau Bach fydd Dydd Mercher, 10^{fed} o Orffennaf 2019 am 5pm. Caiff benderfyniadau eu cyfathrebu erbyn Dydd Mercher 31^{ain} o Orffennaf 2019.

Grantiau Mawr

Dyma'r dyddiadau cau nesaf ar gyfer ceisiadau am grantiau mawr:

- 5pm Dydd Mercher 23^{ain} Ionawr 2019
- 5pm Dydd Mercher 8^{fed} Mai 2019

Bydd angen i chi ganiatáu o leiaf **naw wythnos gwaith** rhwng y dyddiad cau a'r dyddiad pam rydych am ddechrau eich prosiect.

Pa mor aml y cewch wneud cais

Gallwch ddal un "grant byw" o'r maes gwaith hwn a maes gwaith arall o *Grantiau'r Celfyddydau ar gyfer Sefydliadau* mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis. Rydyn ni'n defnyddio'r ymadrodd "grant byw" i olygu cais am brosiect a gafodd cyllid gennym ac sy'n dal i fod ar waith. Rydyn ni'n defnyddio dyddiad dechrau'r prosiect cyntaf sy'n cael ei ariannu gennym i gyfrif y cyfnod o ddeuddeg mis.

Er mae un grant Ymchwil a Datblygu gallwn ariannu o bob sefydliad ymhob blwyddyn fel arfer, croesawn gais ychwanegol ar gyfer *Datblygu Cynyrchiadau Theatr a Dawns* yn benodol (Grant Mawr Ymchwil a Datblygu).

Cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth os ydyn ni wedi rhoi grant i chi o'r blaen a'ch bod chi'n ansicr a ydych chi'n gymwys i wneud cais eto nawr.

Sut i wneud cais

Rhaid ichi drafod eich prosiect gyda ni cyn inni anfon ffurflen gais atoch.

Os oes gennych brosiect y credwch y gallai fod yn gymwys dan y maes ariannu hwn, e-bostiwch eich syniadau prosiect i: datblygu@celf.cymru

Cofiwch gynnwys y manylion canlynol:

- eich enw
- teitl y prosiect
- disgrifiad o'ch prosiect
- faint o arian sydd arnoch ei angen?
- lleoliad y prosiect

Rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio ein system ymgeisio ar-lein.

Os na allwch gyflwyno'ch cais ar-lein, er enghraifft, os ydych chi'n anabl neu os nad oes cyfrifiadur ar gael i chi, cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth. Byddwn ni'n gweithio gyda chi i ddod o hyd i ddull eraill o wneud cais. Gallwn eich cynorthwyo hefyd os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf.

Oes angen rhagor o gyngor arnoch?

Mae gennym Daflenni Gwybodaeth a dogfennau canllaw i'ch helpu chi gyda gwahanol agweddau ar y broses o ymgeisio, neu i ddarparu cyngor ar faterion penodol. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan. Efallai y bydd y canlynol o ddefnydd wrth i chi baratoi'ch cais ar gyfer y maes gwaith Ymchwil a Datblygu:

- [Y Nodiadau Cymorth ar gyfer Ymchwil a Datblygu](#)
- [Y Daflen Wybodaeth ar Ddatblygu Cynyrchiadau Theatr a Dawns](#)
- [Cyngor Celfyddydau Cymru Arweiniad Cydraddoldeb](#)

Os oes gennych ragor o gwestiynau am y cais, ffoniwch ein Tîm Grantiau a Gwybodaeth ar 0845 8734 900 neu e-bostiwch: grantiau@celf.cymru